Telerau ac Amodau
Raffl Gaeaf The Wallich

Gwybodaeth am yr hyrwyddwr

The Wallich, Llawr 1af, 18 Plas y Parc, Caerdydd, CF10 3DC. Rhif Cofrestru'r Elusen 1004103. Person Cyfrifol: Michael Cowley.

Mae The Wallich wedi cael ei drwyddedu fel hyrwyddwr cymdeithasol bychan gan Gyngor Sir Gaerdydd o dan rif trwydded SL0004, o dan Ddeddf Gamblo 2005, www.gamblingcomission.gov.uk

Cymryd Rhan

Mae cymryd rhan yn Raffl Gaeaf The Wallich yn costio £2 y tocyn ac yn agored i bob preswylwyr yn y Deyrnas Unedig sydd yn hŷn na 16 mlwydd oed (nid yw hyn yn cynnwys Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw, ac Ynysoedd y Sianel). Nid oes modd gwerthu'r tocynnau ar y stryd neu o ddrws i ddrws. Ni ellir eu prynu na'u gwerthu gan unigolion o dan 16 oed.

Bydd yr arian sydd yn cael ei godi yn mynd tuag at gefnogi gwaith The Wallich, gan ddarparu cyngor a chefnogaeth i bobl ar draws Cymru y mae digartrefedd wedi effeithio arnynt.

Gellir gwneud taliadau ar gyfer cymryd rhan yn y raffl gyda chardiau credyd neu ddebyd, siec, archeb bost neu arian parod. Yn anffodus nid ydym yn gallu derbyn taleb y Sefydliad Cymorth Elusennau (CAF) neu unrhyw dalebau elusen eraill fel ffordd o dalu am docyn.

Bydd y tocynnau i gyd yn cael eu cynnwys yn y raffl unwaith bydd y ticed a'r taliad cyfan wedi dod i law.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn y tocynnau Raffl Gaeaf The Wallich yw **dydd Mercher 17 Ionawr 2024**. Bydd y ticedi sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau ddim yn cael eu cynnwys yn y raffl a bydd y taliad yn cael ei drin fel rhodd i helpu'n gwaith - Diolch.

Cyfrifoldeb

Bydd yr hyrwyddwr ddim yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb os bydd eich ffordd o dalu yn cael ei ganslo mewn camgymeriad. Does dim cyfrifoldeb ar yr hyrwyddwr os bydd tocynnau ar goll, wedi'u gohirio, neu wedi cael eu difrodi yn y post, ac ni dderbynnir prawf o bostio fel prawf o dderbyn.

Dylid llenwi pob ffurflen arian parod yn electronig drwy'r **ddolen hon**. **Ni ddylid postio arian parod.**

Y raffl

Mae pob tocyn sy'n dod i law ac sydd wedi cael eu talu amdanynt yn llawn cyn y dyddiad cau yn cael eu cynnwys yn y raffl.

Bydd y Raffl yn **digwydd ar 31 Ionawr 2024** yn The Wallich, Llawr 1af, 18 Plas y Parc, Caerdydd CF10 3DQ a bydd y tocynnau yn cael eu tynnu ar hap gan beiriant rhifau ar hap.

Bydd gwobrwyon yn cael eu rhannu yn ôl y drefn y mae'r tocynnau raffl yn cael eu tynnu:

1. Picnic Cymreig moethus mewn basged wiail gan y Welsh Hamper Company
2. Taleb Love2Shop gwerth £150
3. Siampên Cattier
4. Dewis o anrhegion cwrw Bragdy Bro Morgannwg
5. Tocyn sba neu westy OffPeakLuxury.com gwerth £50
6. Cynhyrchion harddwch Patisserie de Bain
7. Potel o Prosecco
8. Taith Invisible (Caerdydd) a the prynhawn i ddau
9. Fodca premiwm Grounds for Good
10. Llestri cegin Lakeland

Bydd enillwyr yn cael galwad ffôn ac yn cael eu gwobrwyon trwy'r post. Os nad oes modd cysylltu â'r enillydd ar y ffôn yna bydd yn cael gwybod ar bapur.

Bydd rhestr o enillwyr ar wefan The Wallich, a bydd ar gael drwy ffonio **02921 508 800**. Bydd enillwyr yn cael eu cyfweld er mwyn dweud gair neu ddau am ennill gwobr, a hynny er mwyn helpu The Wallich i hyrwyddo raffl codi arian yn y dyfodol.

Mae'r canlyniad yn derfynol. Ni fyddwn yn gohebu â chi yn ei gylch.

Gamblo Cyfrifol

Mae The Wallich wedi ymrwymo i hyrwyddo gamblo agored a chyfrifol. Mae Raffl y Gaeaf yn

- Annog cymryd rhan mewn ffordd deg ac agored
- Sicrhau nad yw trosedd yn rhan o gamblo
- Diogelu'r ifanc a'r rhai sy'n agored i niwed

Hunan-wahardd

Er bod y mwyafrif o bobl dim ond yn gamblo'r hyn y gallant eu fforddio, rydyn ni'n deall bod gamblo yn gallu bod yn broblem i rai.

Os ydych chi, neu aelod o'ch teulu, yn teimlo eich bod yn cael problemau gyda gamblo, gallwch edrych am gyngor a chymorth gan gwnselwyr hyfforddedig yn Gambleaware drwy ffonio 0808 8020 133 yn rhad ac am ddim neu ymweld â'r wefan [www.gambleaware.co.uk.](http://www.gambleaware.co.uk)

Er mwyn cefnogi gamblwyr a chanddynt broblemau, mae gennym bolisi hunan-wahardd, sy'n golygu na fyddwch yn derbyn unrhyw wybodaeth am ennillwyr y raffl.

Er mwyn cael eich ychwanegu at y rhaglen hunan-wahardd cysylltwch â'n tîm Codi Arian drwy ffonio **02921 508 800** neu ar dosomething@thewallich.net